MAB Man and the Biosphere

# Cylchlythyr Parc Natur Penglais Newsletter

**Rhif 48 Tachwedd 2013 Golygydd – David Kirby, Hafodwen Cae Melyn, Aberystwyth SY23 2HA**

*Ceir copïau electronig drwy ofyn i - dkpnp@tiscali.co.uk*

Dyma rifyn 2 tudalen gan mae blwyddyn wedi mynd heibio ers i mi gyhoeddi'r rhifyn diwethaf. Mae llawer wedi digwydd yn y Parc ers hynny. Ymdrechaf i amlinellu'r digwyddiadau pwysicaf islaw.

## Bill Jones cyn-drysorydd y Grŵp Cefnogi PNP

Ar nodyn trist, adroddaf fu farw Reginald (Bill) Jones ar 30ain Mawrth 2013. Gwasanaethodd Bill ar y pwyllgor PNP a bu'n Trysorydd y Grŵp Cefnogi am nifer o flynyddoedd, nes i anhwylder achosi ei ymddeoliad. Fe gollom 2 aelod arall o'r grŵp o dan amgylchiadau llawer hapusach:-

## Ymddeoliad Peter Walters Davies MBE

Peter oedd un o'r "pedwar tad ymsefydlu" a berswadiodd Cyngor Sir Ceredigion i sefydlu'r Parc a rodd cyngor ar ei drefniant a rheolaeth. Fe ddefnyddiodd ei brofiadau o gyn-gyflogaeth enillgar fel Swyddog Rhanbarthol Cadwraeth Natur i Dde Cymru, gyda'r swyddogaeth o sefydlu gwarchodfeydd natur a chydnabod safleoedd SSSI. Bu Peter yn gadeirydd y Grŵp Cefnogi Parc Natur Penglais am ei saith mlynedd gyntaf ac yn aelod am 21 mlynedd. Gan fu Peter yn gwasanaethu gyda'r Parc am gyfnod mor hir, nid oedd gynnom unrhyw opsiwn ond i dderbyn ei ymddiswyddiad gyda thristwch.
Aeth 14 o aelodau a chyn-aelodau'r pwyllgor a'u partneriaid gyda Peter i ginio yn y Tynllidiart Arms yn gynnar ym mis Ebrill i ddathlu ei gyfraniad.
Mae Peter yw'r cofnodwr gyfod i'r Sir ac yn aelod gweithgar o'r Grŵp Aberystwyth Gwyrddach felly rydym yn gwybod na fydd e'n diogi! Derbyniodd MBE am waith ar gadwriaeth y Barcud Coch.




Peter WD gyda Liz Allen a gwraig y golygydd

## Ysgrifennydd newydd, Judy Johnston, yn cymryd lle Nelis Drost

Ymddiswyddodd ein hysgrifennydd, Nelis Drost, gan ei fod wedi cwblhau ei astudiaethau PhD a bellach wedi symud o Aberystwyth. Rydym yn ddiolchgar i Nelis am ei gyfraniad i'r Parc nid yn unig fel aelod o'r pwyllgor ond, ynghynt, fel aelod o'r Gwirfoddolwyr Cadwraeth. Rydym yn croesawu Judy Johnston fel ysgrifennydd cyffredinol. Cytunodd Margaret Bateman i barhau fel ysgrifennydd cofnodion.

## Trydedd Wobr Y Faner Werdd




Baneri gwyn yn brin yng nghanolbarth Cymru

Mae Len Kersley wedi goruwchwilio'n trydydd ymgais llwyddiannus am Wobr y Faner Werdd. Mae'r wobr urddasol hyn yn fesur safon cenedlaethol am barciau a mannau gwyrdd, ac fe'i rhedir gan Gadwch Gymru'n Daclus, gan roi cydnabyddiaeth i'r mannau gwyrdd orau yn y wlad (gwelir www.greenflagaward.org/cymraeg). Er gydnabyddir Gwobrau'r Faner Werdd yng Ngogledd a De Cymru, dengys gan y map mai Parc Natur Penglais yw un o'r ychydig lefydd yng Nghanolbarth Gymru a lwyddodd. Cyflwynwyd y dystysgrif gwobr i'r grŵp cefnogi Parc Natur Penglais yn gynnar ym mis Hydref mewn seremoni yn Orendy Parc Margam, ag oedd unwaith yn ogoneddus, gan John Griffiths, Gweinidog Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn Llywodraeth Cymru, ac mae copïau bellach ar yr hysbysfyrddau PNP. Nid oes lle diogel yn y Parc i chwifio'r baneri a ddaeth gyda'r wobr. Er hynny, ymddangoswyd y baneri a thystysgrifau cynt yn ffenestri'r Canolfan Croeso am sawl wythnos ym mis Tachwedd 2012.

## Cyllid a godwyd gan y Grŵp Cefnogi


Mae Len yn parhau i arwain ein cyswllt gydag Amgylchedd Cymru am gyllid grant. Cafwyd £1970 pellach am brosiectau yn y Parc yr hydref hwn, fel a ganlyn islaw. Amod o'r cyllid yw ein bod yn darparu cyfraniad fel amser gwirfoddolwyr. Yn 2012, cynhwyswyd 75 gwirfoddolwr, gan weithio am 380 awr, ag oedd llawer ymhellach nag ein hymrwymiad. Mae angen diolch i bawb a fu'n helpu, yn arbennig i'r Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prifysgol Aberystwyth a wnaeth cyfraniad amhrisiadwy. Yn wir, heb gymorth y myfyrwyr, ni fyddai'n bosib gwneud llawer o'r gwaith cadw.

**Dyddiau Hyfforddi Sgiliau Cadwraeth**

Un agwedd o'r gefnogaeth gan Amgylchedd Cymru oedd cyllido dyddiau hyfforddi yn y Parc ar sgiliau cadwraeth amgylcheddol ymarferol, o dan oruwchwyliaeth Peter Drake, contractiwr amgylcheddol leol. Gwerthfawrogir y sesiynau hyn llawer gan y myfyrwyr, gyda sawl un ohonynt ag uchelgais i ddilyn gyrfaoedd yn rheolaeth cadwraeth a phynciau tebyg. Dwy flynedd yn ôl, codi waliau cerrig oedd e, ac wrth i ni fynd i'r wasg y llynedd, dysgwyd sawl gwirfoddolwr sut i adeiladu sianelu draeniad ymyrraeth cerrig ar draws y llwybr Ffordd y Bryn. Eleni, adeiladir grisiau pren ar y llwybr sy'n rhedeg o dop Dan Y Coed i Lannerch y Ffawydd. Defnyddir coed a ailgylchwyd gan hen drawstiau rheilffordd ag gwnaed allan o goed Jarrah [*Eucalyptus marginata*], sydd yn gryfach ac yn fwy gwydn na phren derw. Mynegwyd pryderon yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y llynedd am gyflwr llithrig y llwybr hwn ac roeddem wrth ein boddau pan gytunodd Amgylchedd Cymru i gyllido dyddiau hyfforddi adeiladu grisiau'r Hydref hwn i ddatrys y broblem.


Hyfforddiant adeiladu grisiau

**Plannu Coed Mis Tachwedd 2012**


Coed ifanc a blannwyd

Defnyddiwyd grant gan Amgylchedd Cymru ym mis Tachwedd 2012 i gynyddu'r amrywiaeth rywogaethau y coed sydd yn tyfu yn y Parc, pan llwyddodd dros 50 o wirfoddolwyr i glirio ardal oedd heb adfywhad coed amrywiol naturiol ac fe blannwyd tua 200 o goed ifanc: cyll, derw a cherddin. Talodd y cyllid am y coed ifanc, y deunydd i warchod y coed newydd, a charpedi wlanog prydradwy i atal tyfiant cystadleuol o amgylch y coed ifanc. Dim ond 5 o'r coed sydd wedi marw hyd heddiw, felly bu'r gwaith yn llwyddiannus iawn.

Bu'n rhaid gadael yr ymgais gwreiddiol i blannu coed ynn ifanc, yn dilyn gwaharddiad gan y llywodraeth oherwydd yr ofn am haint. Gan ddilyn hynny, bu arolwg o'r coed ynn mewn ardal o'r parc gan y grŵp cefnogi. Ni ddarganfuwyd unrhyw arwyddion o heintiau, ac fe gofnodwyd nifer sylweddol o goed ynn ifanc a sefydlwyd yn naturiol.

**Clirio Eithinen 16 Chwefror 2013**

Cliriwyd eithin o ran o'r hen chwarel gan grŵp gweithio er mwyn creu rhwystr tân ac i ganiatáu i rywogaethau eraill sefydlu eu hunain, mewn prosiect a gydlynwyd a ariannwyd gan Ben Sampson o Gyngor Sir Ceredigion. Er ein bod yn erbyn tânnau yn y Parc, fe losgwyd yr eithin i osgoi gadael tomen allai fynd ar dân wedyn. Llosgwyd yr eithin o dan reolaeth agos drwy'r dydd gyda llawer o ddŵr wrth law a rhoddwyd wybod i'r gwasanaeth tân.

Mewn mannau eraill yn y Parc gadewir coed a gliriwyd fel tomenni cynefin i greaduriaid bychain ac i gynnal dadelfenniad gan ffyngau. Peidiwch â gadael gwastraff gardd wrth ochrau y Parc os gwelwch yn dda; nid yw hyn yn gwneud yr un peth ac mae'n peryglus o ran roi gyfle i rywogaethau di-eithr sefydlu eu hunain yn y Parc. Fe reolir y chwarel fel cynefin agored i ddarparu amrywiaeth oddi wrth weddill y Parc (a'r mwyafrif ohoni o dan coed). Mae sawl un dderwen fach yn y chwarel, ac o fewn amser, bydd yn rhaid eu tynnu.


Llosgi eithin

**Malu'r mieri Dydd Sadwrn, 12 Hydref 2013**

Enillwyd cyllid gan Amgylchedd Cymru eleni i drefnu taith malu'r mieri ar hyd y prif lwybr. Llofnodwyd 29 gwirfoddolwr i fyny [gan gynnwys 17 Gwirfoddolwr Cadwraeth Prifysgol Aberystwyth] i helpu gael gwared o'r mieri sydd yn blocio llwybrau ac yn amharu ar yr olygfa o glychau'r gog yn y gwanwyn. Gwellwyd mynediad i'r pwll ac fe gliriwyd yr ardal o gwmpas y coed newydd. Hefyd, torrwyd y coed arel yn ôl oddi ar y llwybr wrth giât y Prifathro

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Cynhelir y CCB ar ddydd Mercher, 20fed Mis Tachwedd 2013 am 7:30yh yn yr Ystafell Wythongl, Canolfan Methodistaidd Sant Paul, Morfa Mawr. Dilynir busnes gan araith, pan fydd Dr Jenny Macpherson o'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent yn siarad am fywyd gwyllt mamolaidd. Dewch os gwelwch yn dda i ddangos eich cefnogaeth tuag at Barc Natur Penglais



Hysbysfwrdd Newydd

**Hysbysfyrddau a Meinciau**

Roedd sawl strwythur pren yn y Parc wedi dechrau pydru. Rydym yn ddiolchgar iawn i Gyngor Sir Ceredigion am ddod o hyd i'r cyllid i adnewyddu tri hysbysfwrdd a'r gadair goffa Derek Baylis eleni, gan mae arian i'r fath yma o waith yn mynd i fod yn fwyfwy prin. Gobeithio byddwch yn mwynhau hysbysfyrddau newydd. Maent nawr yn cynnwys map o'r Parc. Roeddem ni'n arbennig o falch i gydweithio gyda'r brifysgol, mewn prosiect a gydlynwyd gan Elaine Jenson o IBERS a ddaeth o hyd i arian i dalu am banel "Ymchwil yn y Parc" ar yr hysbysfwrdd wrth giât y brifysgol ar y prif lwybr. Mae'n cynnwys gwybodaeth am yr ymchwil a wneir yn y brifysgol i ymchwilio i'r adnoddau cudd meillion coch, rhygwellt, clychau'r gog a ffyngau. Cerfiwyd y byrddau enw ar yr hen hysbysfyrddau gan Mario Subacci sydd bellach wedi marw, ac roedd ei deulu'n hapus i weld fod ei gelfi wedi cael eu trosglwyddo i'r hysbysfyrddau newydd. Mae angen diolch i'r gwirfoddolwyr a gynorthwyodd Ben Sampson a Peter Drake yn codi'r strwythurau hyn. Mae rhaid diolch hefyd i Mrs Mathur a wnaeth rodd a ganiataodd i ni wneud gwaith cadw ar y fainc goffa i'r diweddar Athro P N Mathur, ac ar rai meinciau eraill. Y gaeaf diwethaf, gwnaeth eich golygydd mainc wledig o gelyn a dorrwyd yn Llanerch y Ffawydd [gyda chaniatâd gan y pwyllgor], ac mae hyn wedi goroesi naw mis o ddefnydd yn y Parc.



Bainc wledig

**Prosiect Addysg Grŵp Biosffer Dyfi** **addaswyd oddi wrth Tom Deacon**

Ym mis Ebrill a Mai, defnyddiwyd y Parc gan y Grŵp Addysg Biosffer Dyfi fel cymhariaeth gollddail i goedwig gonwydd ar gampws y Brifysgol fel rhan o brosiect i fyfyrwyr Ysgol Penglais, sydd yn ymchwilio i rôl coedwigoedd yn lleihau llifogydd. Gosodwyd medryddion glaw ar lawr y goedwig yn y ddwy ardal i gymharu cyfraddau rhyng-gipiad. Am fwy o wybodaeth, ymwelwch a:
**http://www.dyfibiosphere.org.uk/addysg** .



Medryddion Glaw

**Monitro Bocsys Adar**

Mae 27 bocs adar ar goed yn y Parc. Ers 1992, mae Moira Convery a chynorthwywyr wedi casglu gwybodaeth am y nifer o focsys a feddiannwyd, rhywogaethau adar, y nifer o wyau a ddodwyd a'r cywion a gafwyd. Cyhoeddwyd ystadegau blynyddol mewn cylchlythyrau gynt, ac adroddir ein canlyniadau i'r Ymddiriedolaeth Adareg Prydain, sydd yn derbyn digon o adroddiadau i sawl rywogaeth i ganiatáu dadansoddiad ystadegol [gweler **www.bto.org** **<http://www.bto.org>**].Y gwanwyn hwn, roedd gan y Parc sawl helpwr newydd i gynorthwyo a'r cofnodi. Roedd y tywydd yn oer a gwlyb adeg nythu. Mae'r ffigyrau bras gan y BTO yn awgrymu mai llawer o adar sy'n nythu'n gynnar, megis y titw tomos las a'r titw mawr, wedi methu a chenhedlu eleni. Er hynny, roedd y llwyddiant cenhedlu i'r rhywogaethau hyn yn y Parc fel yn arferol. Meddiannwyd 16 bocs. Cawsom delor y cnau yn defnyddio bocs am y tro gyntaf mewn 21 mlynedd. Nid wyddys y llwyddiant. Roedd yn defnyddio bocs ag oedd a mynedfa wrth yr ochr. Mae dyluniad y bocsys yn gallu dylanwadu ar y rhywogaethau sydd yn eu defnyddio. Mae Laurie Wright wedi addasu sawl bocs sbâr ac fe feddiannwyd y rhain eleni. Ni wyddys rhywogaeth un aderyn a gadawodd 5 wy.

| | Nytheidiau | Wyau | Magwyd Plu |
|---|---|---|---|
| **Titw Tomos Las 2013** | **10** | **72** | **39** |
| *Cyfartaledd 20 mlynedd y titwod tomos glas yn y Parc* | *11* | *64* | *40* |
| **Titw Mawr 2013** | **4** | **20** | **16** |
| *Cyfartaledd 20 mlynedd* | *5* | *34* | *18* |

Gellid cyfrif wyau a dodwyd gan arsylwi'n aml, gan nad yw deori yn cychwyn nes bod y nythod yn gyflawn. Mae penderfynu faint o gywion fagodd plu yn fwy anodd gan fydd oedolyn yn eistedd yn y nyth gan atal pobl rhag arsylwi ag y cywion. Lindys yw hoff fwyd i'r cywion. Bydd y rhain yn brin mewn gwanwyn oer. Er mwyn cadw'r cywion yn dwym, roedd yr oedolion ar y nyth yn fwy aml eleni.

Mewn 21 mlynedd adroddwyd 206 nyth titw tomos las
102 nyth titw mawr
2 Gwybedog cefnddu ac
1 Delor y cnau

Mae gennym ffigyrau cyflawn i 200 nyth PNP:-

| | Nytheidiau | Wyau/nyth | Magwyd plu/nyth |
|---|---|---|---|
| Titw tomos las | 133 | 6.1 | 3.4 |
| Titw mawr | 67 | 5.4 | 3.3 |

Mae'r rhain yn is na'r ffigyrau BTO. Gall bocsys nyth mewn gerddi fod yn fwy llwyddiannus na'r rhai sydd mewn coedwigoedd



Post Cyfeiriadu

**Cyfeiriadu - Taith Natur**

Adeiladwyd llwybr yn y Parc at ddefnydd ysgolion lleol er mwyn dysgu cyfeiriadu. Mae tua 25 post ag addurnir gyda lluniau o anifeiliaid a phlanhigion lleol yn ogystal â rhif côd. Felly mae'r cwrs hefyd yn llwybr natur.
Cynhyrchwyd mapiau cyfeiriadu. Hyd yn hyn, rydym yn gwybod bod un grŵp o blant ysgol wedi defnyddio fe. Nid oes llyfr tywys ar gael iddi eto.

**Archifau PNP** **Roger Bray**

Rwyf yn cadw un drâr mewn cabinet yn arbennig at storio deunyddiau archif y PNP. Mae'n anhygoel faint a gasglwyd dros y 20 mlynedd diwethaf - neu fwy - a dyma grynodeb ohono fe. Mae un adran am bapurau'r sefydliad fel y cyfansoddiad, agendau a chofnodion o gyfarfodydd pwyllgor a CCBydd, a sawl darn o ohebiaeth am y dyddiau cynharaf. Mae sawl map yr Arolwg Ordnans sydd yn dyddio o'r 19eg canrif hyd heddiw ond byddai'n wych cael set gyflawn ar sawl raddfa wahanol. Mae Cynlluniau Rheolaeth ag adolygir bob 5 mlynedd neu fwy a manylion am brosiectau cysylltiedig fel adeiladu pwll, adfer waliau cerrig a rheoli coed. Mae sawl un gyda lluniau sydd yn dangos y gwaith wrth iddi fynd ymlaen. Nid oes lawer o arolygyddion bywyd gwyllt - mae manylion o goed, restrau o blanhigion, adar (a chofnodion blychau nyth), cennau a gwyfod mawr ond bron a dim byd am anifeiliaid eraill di-asgwrn-cefn.
Mae sawl cyhoeddiad yn cynnwys y cylchlythyrau, taflenni a darnau o bapur newydd, o'r Cambrian News gan y mwyaf ond nid ydwyf yn siŵr os yw'r casgliad yn gyflawn. Tynnwyd lluniau o bwyntiau penodol i gofnodi newidiadau dros amser gan John Harvey yn gyntaf, ac fe'i parhawyd gan ffotograffwyr eraill bob blwyddyn neu ddau ers hynny. Mae llawer o luniau unigol sydd yn cofnodi achlysuron arbennig fel yr agoriad swyddogol.
Nid yw'r canlyniadau o'r cyfrifwyr pobl a leolwyd wrth dri fynedfa yn gyflawn. Mae ffeil arall yn cynnwys manlynion o geisiadau cynllunio sydd yn effeithio ar y Parc neu'i gyffiniau.
Mae'r adran gwobrau yn parhau i dyfu, gan dderbyn Gwobr y Faner Werdd yn 2012 ac mae dogfenni sydd yn cyfeirio at y Warchodfa Biosffer Trefol UNESCO a'r enwebiadau Gwarchodfa Natur Leol.
Paratowyd pecyn addysg i ysgolion uwchradd ym 1994 ac mae taflenni gweithgaredd sydd yn addas at blant ieuanc.
Mae'r rhan fwyaf o'r deunyddiau ar bapur ond mae'r holl gylchlythyron a'r lluniau pwyntiau penodol fwyaf diweddar ar CDau. Wrth gwrs, cedwir deunyddiau arall yn ffeiliau prosiect y swyddogion Cyngor Sir Ceredigion.
Dwi'n croesawu unrhyw gyfraniadau i'r archifau fel hen luniau, mapiau a gwybodaeth hanesyddol. Mae'r arolwg brys yma'n dangos yn glir faint ry'n ni angen dysgu am fywyd gwyllt yn PNP a'i rheolaeth yn y gorffennol.
Mewn amser, byddai'n briodol i mi roi'r deunyddiau i'r Archifau Ceredigion, a leolwyd yn Neuadd y Dref

Peidiwch ag anghofio
CCB PNP
DYDD MERCHER
20AIN TACHWEDD
CANOLFAN ST.PAUL
7.30 YH
BYWYD GWYLLT
MAMOLAIDD

**Postmyn y Cylchlythyr**

Mae'r golygydd yn ddiolch i'r holl wirfoddolwyr sydd yn cynorthwyo i ddosbarthu'r cylchlythyrau i'r tai yn yr holl strydoedd o amgylch y Parc

*Argraffwyd gan Ysgol Penglais*